Y GWASANAETH CYMDEITHASOL ADDYSG

Gwybodaeth i Rieni

Gwyliau yn Ystod y Tymor

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWYLIAU TEULUOL YN YSTOD Y TYMOR

Nid oes gan rieni hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol yn ystod y tymor.

Bydd pob cais am wyliau yn cael ei ystyried yn unigol, a bydd ond yn cael ei ganiatáu ar ddisgresiwn y pennaeth, o dan amgylchiadau arbenning.

Bydd ysgolion yn cymryd i ystyriaeth:

- Oed y plentyn
- Amser o'r flwyddyn
- Natur y daith
- Patrwm presenoldeb cyffredinol y disgybl

Pan na fo ysgol yn caniatáu gwyliau ac mae'r plentyn yn mynd ar wyliau beth bynnag, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel heb ei awdurdodi.

Os cedwir plant o'r ysgol am gyfnod mwy na'r hyn gytunwyd gan yr ysgol, bydd unrhyw amser ychwanegol yn cael ei gofnodi fel heb ei awdurdodi.

Os ydych yn ystyried mynd â'ch plentyn ar wyliau yn ystod y tymor, gofynnwch i ysgol eich plentyn am ffurflen gais a chofiwch:

- Na ddylid cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol.
- Ni ddylech ddisgwyl i ysgol eich plentyn gymeradwyo gwyliau teulu yn ystod y tymor, oni bai bod amgylchiadau arbennig.
- Nid yw'n briodol mynd â'ch plentyn ar wyliau yn ystod arholiadau neu brofion.
- Bydd y pennaeth yn ystyried eich cais yn ofalus ac yn cymryd presenoldeb eich plentyn i ystyriaeth.

Cysylltwch ag ysgol eich plentyn neu'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg (GCA) / Swyddog Lles Addysg (SLlA) am gyngor.

Mae gan bob ysgol yng Nghonwy GCA/ SLlA sy'n monitro cynnydd a phresenoldeb disgyblion.

Gellir cysylltu â'r GCA/SLlA un ai drwy ysgol eich plentyn neu:
Gwasanaeth Cymdeithasol Addysg,
Gwasanaethau Addysg,
Adeiladau'r Llywodraeth,
Ffordd Dinerth,
Bae Colwyn.
LL28 4UL

Ffôn: 01492 575013/096 ???